Swydd: Rheolwr
Lleoliad: Yn gweithio yn 1176, Castell Aberteifi, ac yn teithio'n genedlaethol.
Cyflog: £22,000 – 26,000 (yn gymesur â phrofiad).

Diben Swydd y Rheolwr:

Gweithio i'r perchennog i reoli gweithgareddau dyddiol y bwyty a digwyddiadau, gan gynnwys goruchwylio staff, sicrhau ansawdd y gwasanaeth, a monitro'r broses archebu a chyflenwi. Bydd y swydd yn ein prif safle, sef bwyty 1176 yng Nghastell Aberteifi, ond mae Holden's Catering yn gweithredu'n genedlaethol a bydd gofyn teithio yn y swydd.

Dyletswyddau Swydd y Rheolwr Cynorthwyol:

- Bod yn gyfrifol am berfformiad busnes y bwyty
- Dadansoddi a chynllunio lefelau gwerthiannau'r bwyty a'i broffidioldeb
- Llunio adroddiadau ar ddiwedd y sifft/wythnos, gan gynnwys rheoli staff a gwerthiannau
- Cyflenwi cynlluniau ar gyfer gwerthiannau ac elw'r adran, a datblygiad staff
- Cydlynu'r broses o weithredu'r bwyty, gan sicrhau bod staff y bar a'r staff gweini yn cydweithio
- Hyfforddi, rheoli a chymell staff
- Ymateb i ymholiadau a chwynion cwsmeriaid
- Cwrdd â chwsmeriaid a'u cyfarch, trefnu neilltuo byrddau a chynnig cyngor am ddewisiadau bwydlen a diodydd
- Cynnal safonau uchel o ran rheoli ansawdd, hylendid, ac iechyd a diogelwch
- Cadw llygad ar lefelau stoc, archebu cyflenwadau a pharatoi droriau arian ac arian mân
- Cydymffurfio â chyfreithiau trwyddedu a gofynion cyfreithiol eraill.

Sgiliau a Chymwysterau'r Rheolwr Cynorthwyol:

- Tystiolaeth o brofiad gwaith mewn bwytai neu amgylcheddau eraill gwasanaeth bwyd a diod
- Tystiolaeth o brofiad gwasanaeth cwsmeriaid fel rheolwr
- Gwybodaeth helaeth am fwyd a diod, gyda'r gallu i gofio cynhwysion a seigiau i roi gwybodaeth i gwsmeriaid a staff gweini
- Sgiliau arwain cryf, sgiliau cymell ac ymdrin â phobl
- Rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg
- Byddai profiad o ddigwyddiadau mawr fel cyngherddau a phriodasau yn ddymunol.

Ymgeisio

I ymgeisio am y swydd hon, cyflwynwch eich CV a llythyr eglurhaol i tom@holdenscatering.com.